

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Oakdale, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 6 Mai 2025

Dyddiad cyhoeddi: 6 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	11
	• Ansawdd Profiad y Claf	11
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf	26
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	33

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Oakdale, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 6 Mai 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pedwar gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y canfyddiadau yn ein holiadur i gleifion yn gadarnhaol ym mhob maes ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda'. Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais a pharchus.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys bwyta'n iawn, rhoi'r gorau i smygu a gwybodaeth am imiwneiddiadau.

Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd apwyntiadau yn cynnwys apwyntiadau brys ar yr un diwrnod, neu apwyntiadau cyffredin y gellir eu trefnu ymlaen llaw. Cawsom wybod bod y practis yn cynnig apwyntiadau y gellid eu trefnu chwe wythnos ymlaen llaw. Roedd modd trefnu apwyntiadau gyda nyrs y practis 12 wythnos ymlaen llaw ac apwyntiadau Fflebotomi wyth wythnos ymlaen llaw. Caiff pob apwyntiad ei gynnal wyneb yn wyneb.

Darperir nifer o apwyntiadau ar yr un diwrnod gan y practis i'r rhai ag anghenion clinigol brys. Caiff y cleifion hyn eu brysennu gan feddyg teulu i helpu i sicrhau bod y claf yn cael apwyntiad yn y fformat mwyaf priodol.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan yr holl amgylchiadau priodol, a oedd yn cael ei ategu gan bolisi hebryngwr. Roedd hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i arddangos yn yr ardal aros ac ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol.

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd yr ystafelloedd clinigol yn rhoi preifatrwydd i gleifion drwy gadw'r drysau ar gau yn ystod ymgynghoriadau ac roedd gan bob un o'r ystafelloedd trin ond un lenni preifatrwydd. Fodd bynnag, gwelsom ddrws rhyng-gysylltiedig rhwng ystafelloedd clinigol a oedd heb eu cloi. Gwelsom ddrws hatsh yr oedd modd ei agor yn un o'r ystafelloedd trin. Agorodd yr hatsh hon yn syth i'r toiled hygyrch ac nid oedd mecanwaith i'w gloi.

Dywedwyd wrthym fod un aelod o'r staff yn y practis a oedd yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai posteri ar gael yn Gymraeg ond roedd y wybodaeth am y practis ar gael yn Saesneg yn unig.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom nodi sawl maes yr oedd angen ymdrin â nhw drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis o fewn deuddydd i'r arolygiad yn gofyn iddo lunio cynllun gwella ar unwaith. Roedd y materion yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd cortyn tynnu mewn argyfwng wedi'i osod yn y toiled hygyrch yn y practis
- Rheolaeth a goruchwyliaeth anghyson ac amserol o ohebiaeth ysbyty sy'n dod i mewn.

Mae manylion y gwelliannau i'w gwneud ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd preifatrwydd ac urddas yn cael eu diogelu drwy'r practis
- Sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- System apwyntiadau effeithiol
- Digon o ddeunydd hybu iechyd ar gael

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Caiff rhybuddion diogelwch cleifion eu hanfon at y staff yn electronig a'u rhannu mewn cyfarfodydd.

Yn ystod ein harolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddull systematig o gynnal archwiliadau.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd ardal ar wahân ar gael yn yr ardal aros lle gallai'r cleifion ddefnyddio'r peiriant pwysedd gwaed. Roedd y cleifion yn gallu cyflwyno'u canlyniadau a fyddai'n cael eu cofnodi yng nghofnod eu claf. Mae hwn yn faes o arfer canmoladwy, oherwydd gall cleifion ddefnyddio'r cyfleusterau hyn unrhyw bryd y bydd y feddygfa ar agor.

Yn ystod ein harolygiad, ni chawsom sicrwydd ynglŷn â goruchwyliaeth y practis ar statws imiwnedd y staff clinigol yn erbyn Hepatitis B. Nid oedd cofnod ar waith i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod ganddynt ymateb imiwnedd.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi'n ddiogel, ac roedd y broses i'w defnyddio i ofyn am feddyginiaeth reolaidd yn glir.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gormod o stoc mewn un oergell yn ystafell nyrsys y practis. O ganlyniad, gwelsom fod rhew wedi cronni yng nghefn yr oergell, a allai gyfaddawdu gweithrediad cywir yr oergell a chynnal y tymheredd priodol ar gyfer storio brechlynnau a meddyginiaethau. Gwelsom hefyd nad oedd gwiriadau tymheredd dyddiol yr oergell yn cael eu cynnal.

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Roedd y cofnodion yn glir ac wedi'u hysgrifennu i safon dda ar y cyfan.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom nodi sawl maes yr oedd angen ymdrin â nhw drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis o fewn deuddydd i'r arolygiad yn gofyn iddo lunio cynllun gwella ar unwaith. Roedd y materion yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y cofnodion i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod eu statws imiwnedd wedi'i gofnodi yn wael.
- Storio cyfarpar brys
- Nid oedd y broses o storio brechlynnau a meddyginiaethau mewn oergelloedd clinigol yn gadarn, a allai gyflwyno risg di-oed i ddiogelwch cleifion.

Mae manylion y gwelliannau i'w gwneud ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen atgyfnerthu rhai agweddau ar y trefniadau atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion
- Cyflwyno rhaglen flynyddol o archwiliadau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd proses gadarn ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys
- Roedd ardal ar wahân ar gael yn yr ardal aros lle gallai'r cleifion ddefnyddio'r peiriant pwysedd gwaed
- Roedd proses dda ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel.
- Roedd cofnodion y cleifion yn glir ac wedi'u hysgrifennu i safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi'n ffurfiol gyda chofnod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod perchnogion y camau yn deall yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd clinigol, megis y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Gwnaethom edrych ar gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, prin oedd y systemau rheoli dogfennau a oedd ar waith, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.

Roedd polisiau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith, a disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n briodol i'w rôl. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n sicrhau bod gwiriadau/canlyniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar ffeil ar gyfer y clinigwyr; fodd bynnag, nid oedd yr un aelod o staff gweinyddol wedi bod yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ni chawsom sicrwydd ychwaith bod y trefniadau ar gyfer rheoli a goruchwylio cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn gadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau'n gymwys i ymgymryd â'i rôl yn ddiogel ac yn briodol. Rhoddwyd matrices hyfforddiant cyffredinol i ni a oedd yn nodi cydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol ymhlith pob grŵp staff.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros a oedd yn dangos y ffyrdd y gall cleifion roi adborth. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd

tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt i wella gwasanaethau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom nodi sawl maes yr oedd angen ymdrin â nhw drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis o fewn deuddydd i'r arolygiad yn gofyn iddo lunio cynllun gwella ar unwaith. Roedd y materion yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau i'r lefel ofynnol ar gyfer pob aelod o staff gweinyddol
- Roedd y matrices hyfforddiant yn nodi nad yw pob grŵp staff yn cydymffurfio'n dda â hyfforddiant gorfodol.

Mae manylion y gwelliannau i'w gwneud ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi system rheoli dogfennau gadarn ar waith ar gyfer polisïau a gweithdrefnau
- Dylid cwblhau adborth gan y cleifion ac ystyried yr adborth hwnnw i ddysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, ac i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn y cleifion am y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghanolfan Feddygol Oakdale cyn yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Mai 2025. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda phob un o'r ymatebwyr yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, brechlynnau a gwybodaeth i ofalwyr.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad at ymarferydd seicolegol, ffisiotherapyddion, nyrsys diabetig arbenigol ac mae nyrsys Marie Curie yn mynychu'r practis ddwywaith y flwyddyn.

Roedd pawb a ymatebodd i'n holiadur i gleifion yn teimlo bod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis a'u bod wedi cael cynnig cyngor ar ffordd o fyw iach. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Yn ogystal, roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf yn y feddygfa. Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Roedd yr ystafelloedd clinigol yn rhoi preifatrwydd i gleifion drwy gadw'r drysau ar gau yn ystod ymgynghoriadau ac roedd gan bob un o'r ystafelloedd trin ond un lenni preifatrwydd. Fodd bynnag, gwelsom ddrws rhyng-gysylltiedig rhwng yr ystafell Archwilio ac ystafell pump, a oedd heb ei gloi. Gwelsom ddrws hatsh yr oedd modd ei agor yn un o'r ystafelloedd trin. Agorodd yr hatsh hon yn syth i'r toiled hygyrch ac nid oedd mecanwaith i'w gloi. Felly, gallai hyn gyflwyno mater preifatrwydd ac urddas i gleifion gan ddefnyddio'r toiled hygyrch.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- **bod llenni preifatrwydd yn cael eu ffitio**
- **Bod drysau rhyng-gysylltiedig yn cael eu cloi yn ystod ymgynghoriadau â chleifion**
- **Bod gan y drws hatsh glo.**

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd gwydr i wahanu desg y dderbynfa, a oedd yn cynnig rhywfaint o breifatrwydd o'r ardal aros.

O blith y rhai hynny a ymatebodd i'n holiadur i gleifion, roedd tri o'r ymatebwyr yn teimlo na allent siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan yr holl amgylchiadau priodol, ac roedd polisi hebryngwyr ar waith. Mae'r polisi yn nodi y dylai'r practis gofnodi pan gaiff hebryngwr ei gynnig a phwy sy'n bresennol a ph'un a gafodd hebryngwr ei gynnig. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn cael ei chofnodi yn y cofnodion meddygol. Roedd hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i arddangos yn yr ardal aros ac ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol i ddangos bod y gwasanaeth hwn ar gael. Fodd bynnag, dywedodd dau o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent wedi cael cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cleifion yn cael cynnig hebryngwr, lle y bo'n briodol, a bod hyn yn cael ei ddogfennu yng nghofnodion y cleifion

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai'r cleifion gael gofal gan y person mwyaf priodol mewn modd amserol.

Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd apwyntiadau yn cynnwys apwyntiadau brys ar yr un diwrnod, neu apwyntiadau cyffredin y gellir eu trefnu ymlaen llaw. Cawsom wybod bod y practis yn cynnig apwyntiadau y gellid eu trefnu chwe wythnos ymlaen llaw. Roedd modd trefnu apwyntiadau gyda nyrs y practis 12 wythnos ymlaen llaw ac apwyntiadau Fflebotomi wyth wythnos ymlaen llaw. Caiff pob apwyntiad ei gynnal wyneb yn wyneb.

Darperir nifer o apwyntiadau ar yr un diwrnod gan y practis i'r rhai ag anghenion clinigol brys. Caiff y cleifion hyn eu brysennu gan feddyg teulu i helpu i sicrhau bod y claf yn cael apwyntiad yn y fformat mwyaf priodol.

Dywedodd pob un ond dau a ymatebodd i'n holiadur i gleifion eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar fyrder, a dywedodd pob un ond un eu bod yn gallu cael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt. Hefyd, dywedodd hanner yr ymatebwyr eu bod yn cael cynnig yr opsiwn i ddewis y math o apwyntiad a fyddai'n well ganddynt.

Roedd prosesau ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl. Lle y bo'n briodol, caiff cleifion eu hatgyfeirio at y tîm argyfwng iechyd meddwl/ gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc i gael cymorth argyfwng brys. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt. Mae ymarferydd gofal iechyd seicoleg hefyd ar gael yn y practis sy'n cynnal clinig unwaith yr wythnos.

Ni chawsom sicrwydd fod rheolaeth a goruchwyliaeth gohebiaeth sy'n dod i mewn i'r ysbyty yn gadarn, i sicrhau y gall meddygon teulu adolygu'r dogfennau hynny a rhoi unrhyw gamau gweithredu ar waith mewn modd amserol. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod 373 o eitemau gohebiaeth gan yr ysbyty a oedd wedi'u clustnodi i feddygon teulu nad oeddent wedi gweithredu arnynt. Roedd y rhain yn dyddio'n ôl i 11 Mawrth 2025. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd gan y feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai ag anawsterau clywed.

Fel arfer, roedd cleifion yn cael gwybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan a thrwy rannu gwybodaeth mewn apwyntiadau. Os yw'n hysbys nad

oes gan gleifion fynediad at ddyfais ddigidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion, a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Mae'r practis yn gwasanaethu cymuned amrywiol a chadarnhaodd y staff fod cymorth iaith a chyfieithu yn cael ei ddefnyddio pan oedd angen er mwyn helpu'r staff a'r cleifion i gyfathrebu'n effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod un aelod o'r staff yn y practis a oedd yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai posterï ar gael yn Gymraeg ond roedd y wybodaeth am y practis ar gael yn Saesneg yn unig.

Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i'r cleifion.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd cortyn tynnu mewn argyfwng wedi'i osod yn y toiled hygyrch. Mae'r cortyn hwn yn nodwedd ddiogelwch bwysig er mwyn sicrhau y gall cleifion dynnu sylw a chael cymorth os bydd angen. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith; fodd bynnag, nid oedd yn glir p'un a oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. **Ymdriniwyd â'r mater ynghylch hyfforddiant gorfodol drwy ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Dywedodd pawb a ymatebodd i'n holiadur staff ond un wrthym fod y practis yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle. Nododd y staff hefyd nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur fod modd mynd i mewn i'r adeilad yn hawdd a gwnaethant ddweud nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da. Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r practis.

Gwnaethom edrych ar gynllun parhad busnes, a oedd yn ymdrin yn ddigonol â'r risg i'r bartneriaeth fusnes, risg pandemig ac yn cynnwys cynlluniau wrth gefn digon manwl ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor. Hefyd, dangosodd y practis drefniadau cydweithio fel clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Caiff rhybuddion diogelwch cleifion eu hanfon at y staff yn electronig a'u rhannu mewn cyfarfodydd.

Gwnaethom drafod y camau a gymerir pan ofynnir am ymweliadau â chartrefi cleifion a gwnaethom nodi bod y staff yn brysbennu ac yn asesu risg pob ymweliad â chartrefi cyn mynychu.

Gwelsom gyfarpar untro yr oedd y dyddiad defnyddio ar ei gyfer wedi mynd heibio (poteli sampl wrin a photeli gwaed) yn ystafell un. Cafodd y rhain eu symud a'u gwaredu yn briodol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Rhaid i'r practis gwblhau gwiriad trylwyr o'r stoc ym mhob ystafell i sicrhau bod cyfarpar untro y mae'r dyddiad defnyddio ar ei gyfer wedi mynd heibio yn cael ei symud.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn benodol i'r practis, yn ogystal â pholisïau lleol penodol ar gyfer rheoli feirysau a gludir yn y gwaed. rheoli cadwyn oer a rheoli offer miniog.

Roedd polisi anafiadau a achosir gan nodwydd ar waith a nodwyd gennym nad oedd posterï a oedd yn rhoi cyngor ar anafiadau a achosir gan nodwydd yn cael eu harddangos ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol i gefnogi'r staff pe bai anaf o'r fath yn digwydd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cyflogi contractwyr allanol i ymgymryd â'r gwaith glanhau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd unrhyw amserlenni glanhau wythnosol ar gael. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ardaloedd i'r cyhoedd, yr ystafelloedd trin/ystafelloedd ymgynghori a'r dderbynfa yn lân ac yn daclus.

Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau wythnosol yn cael eu rhoi ar waith

Ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau atal a rheoli heintiau blynyddol neu unrhyw archwiliadau cysylltiedig wedi cael eu cwblhau. Rydym yn argymhell bod archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol yn cael ei gwblhau, gan roi ystyriaeth i gwblhau archwiliadau cysylltiedig, gan gynnwys technegau hylendid dwylo a chyffwrdd aseptig.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cwblhau, dylai hyn gynnwys archwiliad blynyddol o leiaf.

Roedd y matrices hyfforddiant yn nodi bod hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn orfodol i'r staff. Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a oedd yn berthnasol i'w rôl. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Roedd ardal ar wahân ar gael yn yr ardal aros lle gallai'r cleifion ddefnyddio'r peiriant pwysedd gwaed. Roedd y cleifion yn gallu cyflwyno'u canlyniadau a fyddai'n cael eu cofnodi yng nghofnod eu claf. Mae hwn yn faes o arfer canmoladwy, oherwydd gall cleifion ddefnyddio'r cyfleusterau hyn unrhyw bryd y bydd y feddygfa ar agor. Fodd bynnag, mae'r sgrin gludadwy gyfredol yn peri risg atal a rheoli heintiau gan fod y lleni'n fudr, wedi'u staenio ac nid oedd modd eu taflu i ffwrdd. Gwnaethom hefyd awgrymu gosod weips gwrthfacterol a gel dwylo yn yr ardal.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar, gan gynnwys y sgrin breifatrwydd, yn yr ardal pwysedd gwaed yn cael eu cynnwys yn amserlenni glanhau'r practis.

Yn ystod ein harolygiad, ni chawsom sicrwydd ynglŷn â goruchwyliaeth y practis ar statws imiwnedd y staff clinigol yn erbyn Hepatitis B. Nid oedd cofnod ar waith i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod ganddynt

ymateb imiwnedd. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Roedd proses ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Nodwyd bod y gwastraff yn ddiogel.

Roedd trefniadau addas ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr holl gleifion ond un a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod arwyddion yn y practis yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus, a nododd naw ymatebydd nad oeddent yn siŵr.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd y broses i gleifion wneud cais am feddyginiaeth reolaidd yn glir. Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r cleifion yn archebu presgripsiynau drwy'r practis neu ar-lein. Roedd presgripsiynau'n cael eu prosesu gan glercod a oedd wedi'u hyfforddi'n addas, a byddai technegydd y fferyllfa yn awdurdodi unrhyw gamau ailawdurdodi.

Caiff presgripsiynau eu casglu gan y fferyllfeydd lleol. Gall presgripsiynau hefyd gael eu casglu yn nesg y dderbynfa a'u rheoli drwy gadw cofnodlyfr er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio clir.

Dywedwyd wrthym fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel gan y meddygon teulu. Dywedwyd wrthym fod proses ar waith i gael gwared ar badiu presgripsiwn yn ddiogel pan fydd meddyg teulu yn gadael y practis, a gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau o badiu presgripsiwn yn cael eu cynnal gan ddirprwy reolwr y practis.

Roedd polisi rhagnodi a pholisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn y practis; fodd bynnag, roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn dangos nad oeddent wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant ar reoli meddyginiaethau. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Gwelsom fod silindrau ocsigen o fewn eu dyddiad defnyddio a bod y lefelau stoc yn briodol a threfniadau ar waith i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Gwnaethom gyfeirio'r staff at rybudd diogelwch diweddar mewn perthynas â gofynion hyfforddi staff ar ddefnyddio ocsigen a sicrhau bod y silindrau i gyd yn cael eu hagog yn gywir. Nid oedd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ar silindrau ocsigen cludadwy ar-lein. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Roedd yr holl gyfarpar brys angenrheidiol ar waith. Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael ac wedi'i wefru'n llawn. Roedd poster yn cael ei arddangos yn y dderbynfa ac ym mhob ystafell glinigol yn nodi lleoliad y cyfarpar brys. Fodd bynnag, nid oedd yr arwydd Diffibriliwr Allanol Awtomataidd na'r arwydd Ocsigen Diogel cydnabyddedig wedi'u gosod ar y drws lle'r oedd y rhain yn cael eu cadw.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr arwyddion cydnabyddedig ar gyfer Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ac Ocsigen eu gosod ar y drws lle mae'r rhain wedi'u lleoli.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Gwelsom dystiolaeth bod y broses o wirio cyfarpar a chyffuriau brys yn cael ei chofnodi'n briodol ac yn cael ei chynnal bob wythnos. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cynwysyddion â sêl ddiogelwch arnynt, ac ni chawsom sicrwydd fod mesurau priodol ar waith i storio'r bag argyfwng yn gywir. Cafodd y bag argyfwng ei leoli yn ystafell nyrsys y practis; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr ystafell yn cael ei defnyddio i gynnal archwiliadau, fel sgrinio serfigol. Byddai'r ystafell yn cael ei chloi yn ystod yr ymgynghoriadau hyn. Gallai hyn gyflwyno risg wrth gael gafael ar gyfarpar brys mewn modd amserol yn ogystal â pheryglu preifatrwydd ac urddas claf. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cynwysyddion â sêl ddiogelwch arnynt.

Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol priodol. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Ni chawsom sicrwydd bod mesurau priodol ar waith i storio brechlynnau a meddyginiaethau'n ddiogel yn yr oergelloedd a allai achosi risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gormod o stoc mewn un oergell yn ystafell nyrsys y practis. O ganlyniad, gwelsom fod rhew wedi cronni yng nghefn yr oergell, a allai gyfaddawdu gweithrediad cywir yr oergell a chynnal y tymheredd priodol ar gyfer storio brechlynnau a meddyginiaethau. Gwelsom hefyd nad oedd gwiriadau tymheredd dyddiol yr oergell yn cael eu cynnal. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis a gwelsom fod polisi ar waith sy'n cynnwys oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ar y gyriant a rennir. Roedd gan y practis arweinwyr diogelu wedi'u henwi a oedd wedi'u cofnodi yn y polisi.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas. Roedd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal.

Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefel ofynnol. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd prosesau ar waith yn y practis i gynnal a chadw cyfarpar yn ddiogel. Gwelsom fod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod gwiriadau trydanol priodol wedi cael eu cynnal. Roedd contractau ar waith ar gyfer cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar fel y bo'n briodol, ac ar gyfer gwneud unrhyw waith atgyweirio brys neu ddarparu cyfarpar newydd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau gofal effeithiol a diogel ac roedd hyn yn cynnwys y broses ar gyfer cael triniaeth neu ofal ar draws y clwstwr meddygon teulu a'r gwasanaethau gofal sylfaenol ehangach. Gwelsom enghreifftiau nodedig o fonitro meddyginiaeth yn ddiogel a rheoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd system briodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau ac roedd unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm

Dywedwyd wrthym fod unrhyw hysbysiadau diogelwch, newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu rhannu â'r staff dros e-bost a'u trafod â nhw fel y bo'n briodol, a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau/profion a naratif yn esbonio pam y gofynnwyd am yr ymchwiliadau. Fodd bynnag, yn ystod adolygiad o un claf, gwelsom nad oedd camau wedi'u cymryd eto mewn perthynas ag atgyfeiriad ar gyfer claf yr amheuir bod ganddo ganser oherwydd iddo gael ei farcio fel cyffredin yn lle brys. Rhoddodd y practis hyn ar waith ar ddiwrnod ein harolygiad, yn ogystal â'i gofnodi fel Digwyddiad o Bwys.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu cofnodi'n gywir drwy'r amser

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff unrhyw wersi o'r cyfarfod Digwyddiad o Bwys eu rhoi ar waith yn gadarn.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Gwelsom fod defnydd da a chyson yn cael ei wneud o godau Read clinigol, sy'n ei gwneud hi'n haws dadansoddi ac archwilio. Roedd cofnodion cleifion lle roedd clefydau cronig wedi'u cofnodi yn cynnwys crynodeb llawn o'r cyflyrau, gan gynnwys holl broblemau blaenorol a pharhaus y claf, yn ogystal â'r feddyginiaeth yr oedd yn ei chymryd.

Gwelsom fod parhad gofal yn dda, gyda'r cleifion a chofnodion y cleifion yn cael eu goruchwyllo'n agos gan bob meddyg teulu. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos ymgynghoriadau o ansawdd da â chleifion.

Nid oedd dewis iaith y cleifion wedi'i nodi'n amlwg yn y nodiadau y gwnaethom edrych arnynt bob amser, ond gwelsom fod cofrestriadau newydd y cleifion yn cofnodi dewis iaith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau yn cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Buom yn sgwrsio â'r staff drwy gydol yr arolygiad a chawsom adborth drwy holiadur staff. Cytunodd tri ymatebydd a chytunodd un yn rhannol eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl a'u bod wedi cael arfarniad, adolygiad datblygu neu adolygiad blynyddol.

Roedd dau allan o'r pedwar a ymatebodd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' eu bod yn gallu bodloni'r galwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Teimlai tri o'r pedwar ymatebydd nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwasanaethau'r feddygfa.

Roedd tri allan o'r pedwar a ymatebodd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis.

Roedd pawb a ymatebodd yn teimlo:

- Byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo
- Byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y practis iddyn nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu.

Arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd proses glir ar waith yn y practis ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy gyfarfodydd tîm er enghraifft.

Cadarnhaodd y rheolwyr fod polisi drws agored ar waith i'r staff rannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi'n ffurfiol gyda chofnod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod perchnogion y camau yn deall yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd clinigol, megis y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Gwnaethom edrych ar gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, prin oedd y systemau rheoli dogfennau a oedd ar waith, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.

Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu i gynnwys proses gadarn ar gyfer rheoli ac adolygu dogfennau er mwyn sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Er bod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol, nid oedd nyrsys y practis ar gael yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad oherwydd amgylchiadau na ellid bod wedi'u rhagweld. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd unrhyw nyrs ar gael ychwaith i weithio ar ddydd Mercher, ond dywedwyd wrthym eu bod wedi llwyddo i recriwtio nyrs arall yr oedd disgwyl iddi ddechrau yn fuan.

Dywedwyd wrthym fod arfarniadau wedi'u cwblhau ar gyfer staff gweinyddol a bod sesiynau goruchwyllo clinigol neu arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer staff clinigol. Gwelsom hefyd raglen sefydlu drylwyr i ddechreuwr newydd, ond ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol sefydledig, awgrymwn ystyried proses ffurfiol i sicrhau y caiff eu cymwyseddau fel archwilio, ymgynghoriadau a rhagnodi eu nodi. Mae'r practis yn defnyddio meddygon teulu locwm ac yn cynnal lleoliadau i ddechreuwr newydd. Fodd bynnag, awgrymwn gynhyrchu pecyn locwm meddyg teulu a allai gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y practis e.e. lle y caiff y cyfarpar brys ei gadw.

Dylai'r practis ystyried proses ffurfiol ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol sefydledig i sicrhau bod eu cymwyseddau fel archwilio, ymgynghoriadau a rhagnodi yn cael eu cofnodi

Dylai'r practis ystyried llunio pecyn ar gyfer meddygon teulu locwm penodol i'r practis

Roedd polisïau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith, a disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n briodol i'w rôl. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n sicrhau bod gwiriadau/canlyniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar ffeil ar gyfer y clinigwyr; fodd bynnag, nid oedd yr un aelod o staff gweinyddol wedi bod yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. **Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.**

Ni chawsom sicrwydd ychwaith bod y trefniadau ar gyfer rheoli a goruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn gadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau'n gymwys i ymgymryd â'i rôl yn ddiogel ac yn briodol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. Rhoddwyd matrices hyfforddiant cyffredinol i ni a oedd yn nodi cydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol ymhlith pob grŵp staff.

Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gan y practis bolisi cwynion i gleifion; fodd bynnag, nid oedd hwn yn cydfynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi cwyno yn cydfynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru

O'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg, cadarnhaodd pum claf nad oedd y practis wedi gofyn iddynt am eu profiad o'r gwasanaeth a ddarparwyd ac nid oedd pedwar claf yn gwybod sut i gwyno am y gwasanaeth. Fodd bynnag, cytunodd yr holl ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros a oedd yn dangos y ffyrdd y gall cleifion roi adborth. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd dystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod gwybodaeth yn cael ei dangos yn yr ardal aros yn nodi sut y gall pobl roi adborth ar eu profiadau; a
- Bod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.

Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt i wella gwasanaethau.

Gwnaethom siarad â'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi ar waith ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, ac roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Roedd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn deall eu rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn, a gwelsom dystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn.

Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael ar y wefan.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dysgu gwersi o adolygiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys digwyddiadau a chwynion. Dywedwyd wrthym fod dysgu'n cael ei rannu ym mhob rhan o'r practis drwy gyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn gwneud gwelliannau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o glwstwr meddygon teulu. Roedd staff meddygol yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymwneud ag elusen newydd ar gyfer ieuchyd meddwl dynion o'r enw Jolly Beer Crew. Mae'r practis hefyd yn cynnal cyfarfodydd clwstwr chwarterol lle mae modd rhannu arferion da.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi bod yn rhan o beilot i fesur arwyddion cynnar niwed i'r arennau mewn cleifion gyda diabetes. Arweiniodd hyn at nodi 260 o

gleifion yr oedd pecyn profi wedi'i anfon yn y post atynt, gyda 63% yn ei ddefnyddio. Mae'r gwaith hwn wedi'i rannu â'r clwstwr, ac maen nhw bellach yn edrych ar ffyrdd o allu cyflwyno'r prosiect ymhellach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Wrth adolygu cofnod un claf, gwelsom atgyfeiriad ar gyfer achos lle'r oedd amheuaeth o ganser nad oedd y feddygfa wedi gweithredu yn ei gylch eto oherwydd iddo gael ei farcio yn gyffredinol yn lle brys.	Gall marcio atgyfeiriad fel cyffredinol yn lle brys arwain at oedi wrth drin	Cafodd ei uwchgyfeirio i'r meddyg teulu ar ddiwrnod yr arolygiad	Rhoddodd y practis hyn ar waith ar ddiwrnod ein harolygiad, yn ogystal â'i gofnodi fel Digwyddiad o Bwys.
Gwelsom gyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio (poteli sampl wrin a photeli gwaed) yn ystafell un.	Dylid symud cyfarpar untro y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio oherwydd y risgiau potensial i ddiogelwch ac effeithiolrwydd cleifion.	Gwnaethom uwchgyfeirio hyn i reolwr y practis ar ddiwrnod yr arolygiad	Cafodd y rhain eu symud a'u gwaredu yn briodol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Oakdale

Dyddiad yr arolygiad: 6 Mai 2025

Canfyddiadau

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd cortyn tynnu mewn argyfwng wedi'i osod yn y toiled hygrych yn y practis. Mae'r cortyn hwn yn nodwedd ddiogelwch bwysig er mwyn sicrhau y gall cleifion dynnu sylw a chael cymorth os bydd angen.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Dylai cortyn tynnu mewn argyfwng gael ei osod yn y toiled hygrych yn y practis	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Rydw i wedi cysylltu â'n trydanwr heddiw 9/5/25 gyda'r bwriad o osod y cortyn tynnu mewn argyfwng. Bydd yn rhoi hyn ar waith yn ystod yr wythnos yn dechrau 19 Mai 2025.	Tania Jones	Wythnos yn dechrau 19 Mai 2025

Canfyddiadau

Yn ystod ein harolygiad, ni chawsom sicrwydd ynglŷn â goruchwyliaeth y practis ar statws imiwnedd y staff clinigol yn erbyn Hepatitis B. Nid oedd cofnod ar waith i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod ganddynt ymateb imiwnedd.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
2.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y gofrestr hepatitis B yn cael ei chadw'n gyfredol i adlewyrchu statws imiwnedd pob aelod perthnasol o staff.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Cysylltwyd â phob aelod o'r staff i gael eu statws Hep B, mae rhai aelodau o'r staff wedi cael hyn mewn cyflogaeth flaenorol a byddwn yn diweddarau hwn	Rebeca Taylor	Cyn gynted â phosibl

Canfyddiadau

Ni chawsom sicrwydd fod rheolaeth a goruchwyliaeth gohebiaeth sy'n dod i mewn o'r ysbyty yn gadarn, i sicrhau y gall meddygon teulu adolygu'r dogfennau hynny a rhoi unrhyw gamau gweithredu ar waith mewn modd amserol.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod 373 o eitemau gohebiaeth gan yr ysbyty a oedd wedi'u clustnodi i feddygon teulu nad oeddent wedi gweithredu arnynt. Roedd y rhain yn dyddio'n ôl i 11 Mawrth 2025.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
3. Rhaid i'r practis sicrhau bod proses effeithlon ar waith i reoli gohebiaeth sy'n dod i mewn o'r ysbyty; gan sicrhau nad oes ôl-groniadau'n digwydd ac y caiff camau gweithredu eu rhoi ar waith lle y bo'n gymwys.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel; Amserol; Gwybodaeth	Mae'r holl ohebiaeth ysbyty sy'n weddill bellach wedi'i chwblhau. Rydym wedi ychwanegu at agenda cyfarfodydd ein practis a byddwn yn trafod â phob clinigydd i sicrhau yr ymdrinnir â gohebiaeth mewn modd amserol	Tania Jones / Rebeca Taylor	Cyfarfod y Practis 13 Mai 2025

Canfyddiadau

Ni chawsom sicrwydd bod y trefniadau ar gyfer rheoli a goruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn gadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau'n gymwys i ymgymryd â'i rôl yn ddiogel ac yn briodol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. Rhoddwyd matrices hyfforddiant cyffredinol i ni a oedd yn nodi cydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol ymhlith pob grŵp staff.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
4. Rhaid i'r practis wneud y canlynol: - Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol, a darparu tystiolaeth o hynny - Rhoi system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant diweddarau.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Diogel; Y Gweithlu; gwybodaeth	Ers cymryd drosodd fel Rheolwr y Practis a Dirprwy Reolwr y Practis, rydym wedi ceisio sicrhau bod yr holl staff newydd wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Rydym yn y broses o uno pob tystysgrif a byddwn yn sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r holl gyrsiau diweddaraf.	Tania Jones / Rebeca Taylor	Bydd Gerald yn trosglwyddo pob tystysgrif gyfredol i Tania yn ystod y 2-3 wythnos nesaf. Bydd pob hyfforddiant sy'n weddill yn cael ei gwblhau o fewn 4 i 6 wythnos yn sgil gwyliau blynyddol ac ati.

Canfyddiadau

Ni chawsom sicrwydd fod y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn ddigon cadarn i sicrhau trefniadau llywodraethu digonol yn y practis mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yn ystod ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n sicrhau bod gwiriadau/canlyniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar ffeil ar gyfer y clinigwyr; fodd bynnag, nid oedd yr un aelod o staff gweinyddol wedi bod yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
5. Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: • bod y gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (sy'n berthnasol i bob aelod o staff) yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a bod tystiolaeth o hyn yn y ffeil • Bod y staff yn cadarnhau bob blwyddyn bod y wybodaeth ar eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn parhau'n gywir ac na fu unrhyw newidiadau ers cynnal y gwiriad	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Y Gweithlu; gwybodaeth	Gwnaed cais am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff. Wrth symud ymlaen, gofynnir i'r staff sy'n cael eu harfarniadau blynyddol gwblhau ffurflen datganiad i gadarnhau nad oes newidiadau ar gyfer eu statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Rebeca Taylor	Wedi'i gwblhau

Canfyddiadau

Ni chawsom sicrwydd bod mesurau priodol ar waith i storio brechlynnau a meddyginiaethau'n ddiogel yn yr oergelloedd a allai achosi risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gormod o stoc mewn un oergell yn ystafell nyrsys y practis. O ganlyniad, gwelsom fod rhew wedi cronni yng nghefn yr oergell, a allai gyfaddawdu gweithrediad cywir yr oergell a chynnal y tymheredd priodol ar gyfer storio brechlynnau a meddyginiaethau. Gwelsom hefyd nad oedd gwiriadau tymheredd dyddiol yr oergell yn cael eu cynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
6. Mae'n ofynnol i'r practis wneud y canlynol: - Sicrhau nad oes gormod o stoc yn yr oergelloedd a ddefnyddir ar gyfer meddyginiaethau a brechlynnau - Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cymryd o dymheredd y ddwy oergell ac yn cael eu cofnodi	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; gwybodaeth	Mae trafodaeth frys wedi'i chynnal â Kelly Llewelyn (uwch-nyrs) a Julie Williams (uwch-nyrs). Mae cyfarfod nyrsys yn cael ei drefnu mewn perthynas â hyn. Mae nyrs newydd yn dechrau gyda'r practis a byddwn yn sicrhau bod tymheredd yr oergell yn cael ei wirio'n rheolaidd fel y bo'n ofynnol, a hefyd bod y staff nyrsio yn sicrhau nad oes gormod o stoc yn yr oergelloedd.	Kelly Llewelyn / Julie Williams	Wedi'i gwblhau

Canfyddiadau

Ni chawsom sicrwydd bod mesurau priodol ar waith i storio'r bag argyfwng yn gywir, a allai achosi risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Cafodd y bag argyfwng ei leoli yn ystafell nyrsys y practis; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr ystafell yn cael ei defnyddio i gynnal archwiliadau, fel sgrinio serfigol. Byddai'r ystafell yn cael ei chloi yn ystod yr ymgynghoriadau hyn. Gallai hyn gyflwyno risg wrth gael gafael ar gyfarpar brys mewn modd amserol yn ogystal â pheryglu preifatrwydd ac urddas claf.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
7. Rhaid i'r practis edrych ar ei drefniant storio cyfredol o gyfarpar brys, a sicrhau y caiff ardal addas ei dynodi i gadw mynediad amserol i gyfarpar brys gan gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion ar yr un pryd.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Amserol	Mae'r cyfarpar brys wedi'i symud i leoliad mwy addas, h.y. yr ystafell archwilio. Mae pob poster yn y dderbynfa / ystafelloedd clinigol wedi'u diweddarau i'r perwyl hwn. Rydym hefyd wedi ychwanegu poster y tu allan i'r ystafell brys i roi gwybod bod y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ac Ocsigen wedi'u storio ynddi	Tania Jones	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Tania Jones

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 9 Mai 2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Oakdale

Dyddiad yr arolygiad: 6 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelsom ddrws rhyng-gysylltiedig rhwng yr ystafell Archwilio ac ystafell pump, a oedd heb ei gloi. Gwelsom ddrws hatsh yr oedd modd ei agor yn un o'r ystafelloedd trin. Agorodd yr hatsh hon yn syth i'r toiled hygrych ac nid oedd mecanwaith i'w gloi.	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: - bod llenni preifatrwydd yn cael eu ffitio - Bod drysau rhyng-gysylltiedig yn cael eu cloi yn ystod ymgynghoriadau â chleifion - Bod gan y drws hatsh glo.		Nid yw'r ystafell yn cael ei defnyddio gan glinigwyr sy'n archwilio cleifion, mae'r gwely'n cael ei symud o'r ystafell honno a'i gludo i'n prif safle yn Avicenna. Ystafell i Ymwelydd lechyd oedd	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

				hon yn flaenorol. • Mae'r drysau ar glo drwy'r amser. • Bydd gan ddrws yr hatsh glo ar bob ochr nawr.		
2.	Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion nad oeddent wedi cael cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod cleifion yn cael cynnig hebryngwr, lle y bo'n briodol, a bod hyn yn cael ei ddogfennu yng nghofnodion y cleifion		Mae'r holl staff clinigol yn ymwybodol o hyn a byddant yn ei ymgorffori ym mhob apwyntiad lle y bo'n briodol. Bydd yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion hefyd bod hebryngwr wedi cael ei gynnig.	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
3.	Fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai	Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i'r cleifion.		Mae gwybodaeth am y practis ar gael ar ein gwefan, a hynny ym mhob iaith.	Tania Jones Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	posteri ar gael yn Gymraeg ond roedd y wybodaeth am y practis ar gael yn Saesneg yn unig.					
4.	Gwelsom gyfarpar untro yr oedd y dyddiad defnyddio ar ei gyfer wedi mynd heibio (poteli sampl wrin a photeli gwaed) yn ystafell un.	Rhaid i'r practis gwblhau gwiriad trylwyr o'r stoc ym mhob ystafell i sicrhau bod cyfarpar untro y mae'r dyddiad defnyddio ar ei gyfer wedi mynd heibio yn cael ei symud.		Caiff gwiriadau rheolaidd eu cwblhau ym mhob ystafell glinigol yn wythnosol.	Kelly Llewelyn Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau
5.	Nid oedd unrhyw amserlenni glanhau wythnosol ar gael.	Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau wythnosol yn cael eu rhoi ar waith		Mae amserlenni glanhau ar waith ac yn cael eu dilyn gan y cwmni glanhau sydd dan gontract.	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
6.	Ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau atal a rheoli heintiau blynyddol neu unrhyw archwiliadau cysylltiedig wedi cael eu cwblhau.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cwblhau, dylai hyn gynnwys archwiliad blynyddol o leiaf.		Bydd archwiliad rheoli heintiau gan staff penodedig (sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Rheoli Heintiau), gan ddefnyddio'r rhestr wirio, yn cael ei gynnal bob deufis o leiaf a bydd y	Tania Jones Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

				canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r cyfarfod partneriaid ar gyfer unrhyw gamau unioni (os o gwbl).		
7.	Mae'r sgrin gludadwy gyfredol yn yr ardal pwysedd gwaed yn peri risg atal a rheoli heintiau gan fod y llenni'n fudr, wedi'u staenio ac nid oedd modd eu taflu i ffwrdd.	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar, gan gynnwys y sgrin breifatrwydd, yn yr ardal pwysedd gwaed yn cael eu cynnwys yn amserlenni glanhau'r practis.		Symudwyd y sgrin breifatrwydd o ardal y dderbynfa a chafwyd gwared arni. Mae hylif diheintio dwylo a weips gwrthfacterol bellach ar gael i gleifion eu defnyddio.	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
8.	Nid oedd yr arwydd Diffibriliwr Allanol Awtomataidd na'r arwydd Ocsigen Diogel cydnabyddedig wedi'u gosod ar y drws lle'r oedd y rhain yn cael eu cadw.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr arwyddion cydnabyddedig ar gyfer Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ac Ocsigen eu gosod ar y drws lle mae'r rhain wedi'u lleoli.		Mae arwyddion bellach yn eu lle ar y drysau lle caiff y cyfarpar ei gadw.	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
9.	Gwelsom nad oed y cyffuriau brys yn cael	Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyffuriau brys yn		Ni chaiff unrhyw gyffuriau a reolir eu	Tania Jones	Wedi'i gwblhau

	eu storio mewn cynwysyddion â sêl ddiogelwch	cael eu storio mewn cynwysyddion â sêl ddiogelwch arnynt.		cadw gyda'r cyfarpar brys. Caiff meddyginiaeth fel asbrin ei selio ac felly byddem yn ymwybodol o unrhyw achos o ymyrryd	Rheolwr y Practis	
10.	Gwelsom atgyfeiriad ar gyfer achos lle roedd amheuaeth o ganser nad oedd camau wedi'u cymryd eto oherwydd iddo gael ei farcio fel cyffredin yn lle brys.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu cofnodi'n gywir drwy'r amser Rhaid i'r practis sicrhau y caiff unrhyw wersi o'r cyfarfod Digwyddiad o Bwys eu rhoi ar waith yn gadarn.		Codwyd digwyddiad o bwys yn dilyn y canfyddiad hwn ac ymdriniwyd ag ef yn briodol, mae'r holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd nodi atgyfeiriadau brys.	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
11.	Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn y cofnodion clinigol bob amser.	Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol		Os bydd claf yn rhoi gwybod i'r staff am ddewis iaith, bydd hyn yn cael ei gofnodi a'i ychwanegu fel cofnod 'ymddangos' ar ei gofnod meddygol		
12.	Gwnaethom edrych ar gyfres gynhwysfawr o	Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu i		Bydd pob polisi bellach yn cael ei	Tania Jones	Wedi'i gwblhau

	bolisiau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, prin oedd y systemau rheoli dogfennau a oedd ar waith, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.	gynnwys proses gadarn ar gyfer rheoli ac adolygu dogfennau er mwyn sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff.		adolygu'n flynyddol, gan ddiwygio pob polisi fel y bo'n ofynnol a diweddarau'r polisi gyda'r dyddiad adolygu a phwy wnaeth adolygu.	Rheolwr y Practis	
13.	Gwelsom hefyd raglen sefydlu drylwyr i ddechreuwr newydd, ond ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol sefydledig i sicrhau y caiff eu cymwyseddau fel archwilio, ymgynghoriadau a rhagnodi eu nodi. Mae'r practis yn defnyddio meddygon teulu locwm ac yn cynnal lleoliadau i	Dylai'r practis ystyried proses ffurfiol ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol sefydledig i sicrhau bod eu cymwyseddau fel archwilio, ymgynghoriadau a rhagnodi yn cael eu cofnodi Dylai'r practis ystyried llunio pecyn ar gyfer meddygon teulu locwm penodol i'r practis		Nid oes gennym unrhyw staff anfeddygol sy'n rhagnodi meddyginiaeth. Mae hyn wedi'i adolygu, mae pecyn i feddygon teulu locwm ar waith ac rydym yn dilyn Polisi Meddygon Locwm Cymru Gyfan. Rydym wedi dangos i'r staff bob amser, boed y rheini'n ddechreuwr newydd, yn feddygon teulu locwm neu ar	Tania Jones Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	ddechreuwyd newydd. Fodd bynnag, awgrymwn gynhyrchu pecyn locwm meddyg teulu a allai gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y practis e.e. lle y caiff y cyfarpar brys ei gadw.			brofiad gwaith, lle y caiff cyfarpar brys eu lleoli.		
14.	Roedd gan y practis bolisi cwynion i gleifion; fodd bynnag, nid oedd hwn yn cydfynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi cwyno yn cydfynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru		Roedd polisi Gweithio i Wella GIG Cymru yn cael ei ddilyn gan y practis.	Rebeca Taylor Dirprwy Reolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

15.	Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros a oedd yn dangos y ffyrdd y gall cleifion roi adborth. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd dystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: • Bod gwybodaeth yn cael ei dangos yn yr ardal aros yn nodi sut y gall pobl roi adborth ar eu profiadau; a • Bod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.		Caiff posteri bellach eu harddangos yn y dderbynfa gan nodi sut y gall cleifion roi adborth ar eu profiadau a'u hawgrymiadau. Gofynnir i gleifion hefyd gwblhau holiadur adborth gan gleifion blynyddol, caiff yr holl sylwadau eu hystyried a phan fydd angen, eu trafod yng nghyfarfodydd perthnasol y practis. Gwneir y staff yn ymwybodol o'r sylwadau cadarnhaol a negyddol, a gwnaed gwelliannau lle y bo'n bosibl.	Rebeca Taylor a Tania Jones Dirprwy Reolwr y Practis a Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
-----	--	---	--	---	---	-----------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Tania Jones

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: **17 Gorffennaf 2025**